



CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Digwyddiadau (Dyfarniad Technegol)

MANYLEB

I'w haddysgu o 2022

I'w dyfarnu o 2024

Crynodeb o newidiadau

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen

DRAFFET

Cynnwys

1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Digwyddiadau (Dyfarniadau Technegol).....	3
1.4 Gofynion dysgu blaenorol.....	4
1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?	4
2.1 Cynnwys y Pwnc.....	5
2.2 Trosolwg o'r Asesu	5
3.1 Fformat yr unedau	7
3.2 Ymhelaethiad	7
4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)	27
4.2 Asesiad mewnol (Uned 2)	27
4.3 Asesiad synoptig.....	27
4.5 Rheoli'r asesiadau	28
5. Oriau dysgu dan arweiniad a chyfanswm amser cymhwyso	29
5.1 Oriau dysgu dan arweiniad	29
5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso.....	29
6.1 Cymeradwyo Canolfannau.....	30
6.2 Dulliau Cofrestru	30
Cofrestru ar gyfer unedau.....	30
Codau cofrestru	31
8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio	33
Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn allanol cyn ardystio; ond, mae gofyniad terfynol o 40% yn y cymhwyster hwn y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Felly, dim ond y sgôr marciau unffurf o'r ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hon yn is na'r ymgais blaenorol.	33
8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio.....	33
8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau	33
9.1 Atal camymddwyn	34

1. Trosolwg o'r cymhwyster

Teitl y Cymhwyster	CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Digwyddiadau (Dyfarniad Technegol)
Math o Gymhwyster yr AA	Dyfarniad Technegol
RhC Ofqual	603/7016/6
Cod Cymhwyster CBAC	
Cod Disgownt yr AA	
Grŵp oedran cymeradwy	14+
Addysgu am y tro cyntaf	Medi 2022
Ardystio am y tro cyntaf	Ionawr 2024
Dogfennau Allweddol	Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Canllaw Gweinyddu
Canllawiau Addysgu	Canllaw Asesu Canllaw Cyflwyno Canllawiau Addysgu Uned 1 Canllawiau Addysgu Uned 2

1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Bwriad cymwysterau CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr astudio pynciau galwedigaethol ar yr un pryd â chymwysterau TGAU a chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn yn rhan o raglen astudio eang.

Cawsant eu llunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed gan ganolbwyntio ar ddysgu mewn ffordd gymhwysol, h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod yng nghyd-destun y sector neu'r pwnc. Mae ganddynt felly lawer o nodweddion gwaith real.

Mae'r cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) ar gael mewn 9 maes pwnc. Ar y rhestr isod, mae unrhyw bynciau â * yn bodloni gofynion Ofqual a'r AA ar gyfer cymwysterau'r tabl perfformiad CA4:

- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Peirianeg
- Digwyddiadau
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwyo
- TGCh
- Celfyddydau Perfformio
- Busnes Adwerthu
- Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi.

1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Digwyddiadau (Dyfarniadau Technegol)

Mae'r diwydiant digwyddiadau yn cyfrannu mwy na £42.3 biliwn at economi'r DU. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael¹ yr amcangyfrif yw bod segmentau unigol o'r sector digwyddiadau yn werth:

- cynadleddau a chyfarfodydd – £19.9 biliwn
- arddangosfeydd a sioeau masnach y DU – £11 biliwn
- arddangosfeydd byd-eang gan drefnwyr o'r DU – £2 biliwn
- digwyddiadau chwaraeon – £2.3 biliwn
- digwyddiadau cerddoriaeth – £1.3 biliwn
- teithio cymhellol a gwella perfformiad – £1.2 biliwn
- lletygarwch corfforaethol – £1.2 biliwn
- digwyddiadau awyr agored – £1.1 biliwn
- gwyliau a digwyddiadau diwylliannol – £1.1 biliwn

¹ www.businessvisitsandeventspartnership.com (ffynhonnell: 'UK Economic Impact Study 2013')

1.3 Amcanion y cymhwyster

Lluniwyd y Dyfarniad Galwedigaethol mewn Digwyddiadau i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i botensial o ran gyrfa neu astudio pellach. Mae ar ei fwyaf addas yn sylfaen i astudio pellach. Byddai unrhyw astudio pellach o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n eu helpu wedyn i symud i fyd cyflogaeth.

1.4 Gofynion dysgu blaenorol

Er nad oes gofynion cofrestru ffurfiol, byddai'r sgiliau dysgu a'r doniau canlynol yn ddefnyddiol i ddysgwyr: hyfedredd sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd, rhywfaint o allu i weithio â chyfrifiaduron a chymhelliant i weithio'n annibynnol.

1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n cynnwys dwy o unedau gorfodol:

Uned	Teitl	Asesu	ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)
1	Y diwydiant digwyddiadau	Allanol	48
2	Cynllunio a chynnal digwyddiad	Mewnol	72

2. Cipolwg ar y fanyleb

2.1 Cynnwys y Pwnc

Mae Uned 1 yn galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant digwyddiadau. Bydd dysgwyr yn edrych ar yr hyn sy'n ofynnol i allu cynllunio digwyddiad llwyddiannus yn effeithiol. Byddant yn astudio cyfleoedd gwaith gan gynnwys y sgiliau, y cymwysterau a'r rhinweddau sy'n angenrheidiol i weithio yn y diwydiant digwyddiadau. Hefyd, bydd dysgwyr yn ystyried gwerth y diwydiant digwyddiadau a'i effaith yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol (tudalen 8).

Mae Uned 2 yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad o'r diwydiant digwyddiadau a'r ffactorau hynny sy'n cyfrannu at lwyddiant digwyddiadau. Bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ymchwilio, cynllunio, cydlynu, cynnal a gwerthuso eu digwyddiad eu hunain (tudalen 18).

2.2 Trosolwg o'r Asesu

Crynodeb o'r Asesu	
Uned 1: Y diwydiant digwyddiadau Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 20 munud 40% o'r cymhwyster	80 marc
Cwestiynau atebion byr ac estynedig wedi'u seilio ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau.	
Uned 2: Cynllunio a chynnal digwyddiad Asesiad dan Reolaeth: 14 awr 60% o'r cymhwyster	120 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad ar ei Wefan Ddiogel a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau.	

2.3 Amcanion Asesu

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r fanyleb.

AA2

Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.

AA3

Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau priodol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	20%	11%	9%	40
Uned 2	5%	39%	16%	60
Pwysoli cyffredinol	25%	50%	25%	100%

3. Unedau

3.1 Fformat yr unedau

Teitl yr uned:	Crynodeb fer o gynnwys yr uned.
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):	Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwylwr neu arolygwr. Dyrannwyd oriau dysgu dan arweiniad i bob uned i gefnogi'r gwaith cyflwyno. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn, ac argymhelliad felly yw nifer yr oriau i bob uned.
Cyd-destun galwedigaethol:	Sail resymegol alwedigaethol ar gyfer cynnwys yr uned.
Trosolwg o'r uned:	Crynodeb o gynnwys yr uned. Y rhan hon sy'n rhoi'r uned yn ei chyd-destun ac yn tynnu sylw at bwrpas yr hyn y mae'r uned yn ei ddysgu.
Testunau	Yn cynnwys rhestr o'r testunau y mae'r uned yn ymdrin â nhw.
Asesiad:	Crynodeb o ddull asesu'r uned.

3.2 Ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- mae 'dylai dysgwyr wybod' wedi'i ddefnyddio ar gyfer galw i gof ffeithiau fel deddfwriaeth a diffiniadau
- mae 'dylai dysgwyr wybod a deall' wedi'i ddefnyddio ar gyfer mwyafrif cynnwys yr uned lle mae angen i'r wybodaeth arwain at ymdeimlad o ddealltwriaeth
- mae 'dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' wedi'i ddefnyddio pan fo swm y cynnwys yn eithaf helaeth ac nid oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd yn fanwl
- mae 'dylai dysgwyr allu' wedi'i ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth at senario neu sefyllfa ymarferol.

Cyflwynir cynnwys y pwnc mewn 2 uned, ac mae pob un wedi'i hisrannu yn feysydd testun clir a phenodol. Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn nodi'r cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r golofn ar y dde yn darparu ymhelaethiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai dysgwyr eu datblygu yn y maes hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys llawn y fanyleb. Nid awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac nid yw'r drefn ei hun yn awgrymu trefn addysgu benodol.

Mae'r ymhelaethiad yn y golofn ar y dde yn cwmpasu'r holl gynnwys sy'n cael ei asesu ar gyfer yr adran berthnasol, oni bai ei fod yn nodi 'e.e.', 'gan gynnwys' neu 'megis'. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymhelaethiad yn rhestru cynnwys perthnasol y dylid ei drafod ymhellach mewn ffordd briodol, gan ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr. Mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn dangos

elfen o orfodaeth (h.y. gellid gofyn cwestiwn yn benodol ar yr agwedd honno). Cyfarwyddyd yn unig yw'r defnydd o'r geiriau 'e.e.' neu 'megis', a gellid dewis rhywbeth yn lle'r hyn a nodir.

DRAFFET

Uned 1

Teitl yr uned	Y diwydiant digwyddiadau
ODA	48
Cyd-destun galwedigaethol	Mae'r diwydiant digwyddiadau yn amgylchedd gwaith sy'n gyffrous ac yn symud yn gyflym. Mae amrywiaeth o rolau yn ymwneud â'r maes hwn. Bydd gofyn i unrhyw arbenigwr ar ddigwyddiadau wybod am feysydd allweddol o wybodaeth. Gyda'r wybodaeth hon y gallant ddarparu'r gwasanaeth a'r cyngor gorau posibl ar gyfer eu cleientiaid a'r diwydiannau maent yn gweithio ynddynt.
Trosolwg o'r uned	Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant digwyddiadau. Bydd dysgwyr yn archwilio'r hyn y mae angen ei ystyried er mwyn gallu cynllunio digwyddiad llwyddiannus yn effeithiol, yn astudio cyfleoedd cyflogaeth gan gynnwys y sgiliau, y cymwysterau a'r rhinweddau sydd eu hangen i weithio yn y diwydiant digwyddiadau. Hefyd, bydd dysgwyr yn ystyried yr effaith economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, a hynny'n gadarnhaol ac yn negyddol, ar y diwydiant digwyddiadau.
Testunau	<p>1.1 Cyflwyniad i'r diwydiant digwyddiadau</p> <p>1.2 Cyflogaeth yn y diwydiant digwyddiadau</p> <p>1.3 Cwmpas ac effaith y diwydiant digwyddiadau</p>
Asesu	<p>Asesir yr uned hon yn allanol, drwy arholiad ysgrifenedig sy'n cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster.</p> <p>Hyd: 1 awr 20 munud</p> <p>Nifer y marciau: 80</p> <p>Fformat: cwestiynau ag atebion byr ac estynedig yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau.</p>

1.1 Cyflwyniad i'r diwydiant digwyddiadau

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant digwyddiadau, yn benodol:

- 1.1.1 Digwyddiadau – pwrpas, categorïau, gofod, graddfa ac amlder
- 1.1.2 Mathau o leoliadau
- 1.1.3 Sefydliadau sy'n rhan o ddigwyddiadau
- 1.1.4 Mathau o gleientiaid a chwsmeriaid, eu hanghenion a'u disgwyliadau
- 1.1.5 Egwyddorion cynllunio digwyddiadau
- 1.1.6 Gofynion rheoleiddiol

Cynnwys

Ymhelaethiad

1.1.1

Digwyddiadau – pwrpas, categorïau, gofod, graddfa ac amlder

Pwrpas Digwyddiad

Dylai dysgwyr wybod a deall mai prif bwrpas digwyddiadau yw:

- ymgynnull, cymdeithasu, dathlu a mwynhau
- ennill cyhoeddusrwydd
- gwneud cysylltiadau/rhwydweithio
- cynnig llwyfan ar gyfer cystadleuaeth
- codi ymwybyddiaeth
- codi arian
- cydnabod llwyddiant.

Categorïau o ddigwyddiadau

Dylai dysgwyr wybod y gwahanol gategorïau o ddigwyddiadau a deall i ba grŵp mae digwyddiadau penodol yn perthyn:

- digwyddiadau busnes/corfforaethol:
 - cynadleddau
 - arddangosfeydd
 - seminarau/gweithdai
 - sioeau masnach
- digwyddiadau preifat/elusennol/hamdden/cymdeithasol:
 - dathliadau, e.e.: parti bwmp, aduniadau
 - cyngherddau/gwyliau
 - diwylliant
 - gwyliau bwyd
 - llenyddiaeth
 - partïon priodasau, pen-blwydd
 - digwyddiadau tymhorol
 - chwaraeon.

	<p>Dylai dysgwyr wybod y gall digwyddiadau nodweddedig (<i>hallmark</i>) berthyn i bob categori o ddigwyddiad a'u bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn brif ddigwyddiadau o statws rhyngwladol a gynhelir yn rheolaidd neu untro yn unig • wedi'u mewnlannu mewn diwylliant arbennig • yn gysylltiedig â'r gyrchfan groesawu ac yn ffurfio rhan o'i delwedd. <p>Gofod, graddfa ac amllder</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall bod digwyddiadau yn gallu bod yn rhai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dan do, awyr agored neu rithiol • lleol, cenedlaethol neu ryngwladol • ailadroddol neu 'untro' • bach (cyfyngedig o ran maint neu gwmpas) neu fawr (pellgyrhaeddol neu eang)
<p>1.1.2 Mathau o leoliadau</p>	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r mathau canlynol o leoliadau a deall y gallant amrywio o ran maint gan ddibynnu ar ba mor addas ydynt ar gyfer y digwyddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • neuaddau cyngerdd • sinemâu • lleoliadau hanesyddol e.e. cestyll • bwytai • clybiau chwaraeon/cymdeithasol • clwb nos • oriel gelf • canolfannau arddangos/cynadleddau • gwestai, tafarnau, theatrau • pebyll mawr • ysgolion/ colegau/prifysgolion • canolfannau chwaraeon/busnes • stadiymau • neuaddau tref/dinas/pentref a chanolfannau cymunedol • parciau trefol ac yng nghefn gwlad. <p>Dylai dysgwyr hefyd fod yn ymwybodol o addasrwydd lleoliadau ar gyfer mathau gwahanol o ddigwyddiadau.</p>

<p>1.1.3 Sefydliadau sy'n rhan o ddigwyddiadau</p>	<p>Dylai dysgwyr wybod sut mae sefydliadau yn cydweithio i gynllunio, gosod a rhedeg digwyddiadau (cyn y digwyddiad ac wedyn) fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sefydliadau'r sector preifat gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • diogelwch • arlwyo • adloniant • rheoli digwyddiadau • arddangoswyr • cyfryngau • darparwyr trafndiaeth • cyrff llywodraethu chwaraeon • sefydliadau'r sector cyhoeddus gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cynghorau/awdurdodau lleol • y gwasanaethau brys.
<p>1.1.4 Mathau o gleientiaid a chwsmeriaid, eu hanghenion a'u disgwyliadau</p>	<p>Mathau o gleientiaid a chwsmeriaid</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall bod modd categoreiddio cleientiaid a chwsmeriaid yn seiliedig ar y math o ddigwyddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • math o gleientiaid mewn digwyddiad busnes/corfforaethol: <ul style="list-style-type: none"> • cynrychiolwyr, arddangoswyr, siaradwyr, noddwyr, partneriaid, grwpiau, unigolion. • math o gleientiaid mewn digwyddiad preifat/elusennol/hamdden/cymdeithasol: <ul style="list-style-type: none"> • cynulleidfa/gwylwyr, cyfranogwyr, grwpiau corfforaethol, teuluoedd, plant, unigolion, noddwyr, gwesteion, grwpiau, cyplau. <p>Anghenion cleientiaid a chwsmeriaid</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall y dylai digwyddiadau fod yn rhai cynhwysol a bod digwyddiadau llwyddiannus yn croesawu ac yn cynrychioli pob mynychwr. Dylai dysgwyr wybod po fwyaf cynhwysol yw digwyddiad, y mwyaf y bydd y gynulleidfa bosibl. Gall hyn olygu bod angen ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gofynion deietegol • ystafelloedd ymolchi niwtral o ran rhywedd • ffurflenni adborth: <ul style="list-style-type: none"> • rhagenwau niwtral o ran rhywedd • iaith/cyfieithu • darparu ar gyfer pobl â nam ar y clyw/golwg • ystafelloedd i rieni • darpariaeth i anifeiliaid anwes • ystafelloedd gweddi a myfyrdod

	<ul style="list-style-type: none"> • symudedd cyfyngedig.
	<p>Disgwyliadau cleientiaid a chwsmeriaid</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall bod yr holl gwsmeriaid a chleientiaid yn disgwyl bod mesurau iechyd a diogelwch priodol ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystafell/staff cymorth cyntaf • diogelwch trydanol (e.e. offer clyweledol) • arwyddion allanfeydd tân • diogelwch bwyd • asesiad risg. <p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod disgwyliadau gwahanol gleientiaid a chwsmeriaid yn gallu bod yn wahanol. Mae hyn yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad ac ar eu gofynion unigol, sy'n gallu cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweinyddu, cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad • technoleg – gwefannau, Wi-Fi, argraffu, apiau • adloniant • cymwysterau gwyrdd – ailgylchu, arbed egni a dŵr, dewisiadau di-bapur • teithio a thrafnidiaeth – parcio ceir, gwasanaethau gwennol a thacsi, trosglwyddo o orsafoedd rheilffordd a meysydd awyr • llety – ystodau prisiau a chyfleusterau gwahanol.
<p>1.1.5 Egwyddorion cynllunio digwyddiadau</p>	<p>Dylai dysgwyr ddeall a gwybod am yr egwyddorion cynllunio digwyddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gosod nodau ac amcanion sy'n rhai SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac o fewn amserlen) • asesu'r gynulleidfa darged/y farchnad darged • penderfynu ar y math o ddigwyddiad • gosod a chytuno ar y gyllideb • cyfateb ardal (location) a dewis o leoliad penodol (venue) i ateb gofynion cwsmeriaid • cytuno ar y dyddiad a'r hyd • asesu risgiau i gynnwys pum cam allweddol asesiad risg: <ol style="list-style-type: none"> 1. nodi'r peryglon 2. penderfynu pwy a all gael ei niweidio a sut 3. gwerthuso'r risgiau a phenderfynu ar y rhagofalon 4. cofnodi eich canfyddiadau a'u gweithredu 5. adolygu eich asesiad risg a'i ddiweddarau yn ôl yr angen

- paratoi cynllun wrth gefn
- penderfynu ar strategaeth farchnata
- cynllunio sut bydd y digwyddiad yn cael ei werthuso a sut bydd yr adborth yn cael ei gasglu

DRAFT

1.1.6

Gofynion rheoleiddiol

Dylai dysgwyr wybod sut mae digwyddiadau yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol a gofynion iechyd a diogelwch mewn perthynas â chynllunio a chynnal digwyddiadau:

- marchnata digwyddiadau a deunyddiau hyrwyddo
- cynllun diogelwch
- yswiriant i gynnwys:
 - yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
 - yswiriant canslo
 - llogi offer
- trwyddedau
- caniatâd
- cytundebau ysgrifenedig yn cynnwys telerau ac amodau.
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

DRAFT

1.2 Cyflogaeth yn y diwydiant digwyddiadau

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o gyflogaeth yn y diwydiant digwyddiadau, y canlynol yn benodol:

1.2.1 Cyfleoedd cyflogaeth, rolau swyddi a chyfrifoldebau

1.2.2 Sgiliau a rhinweddau

Cynnwys	Ymhelaethiad
<p>1.2.1 Cyfleoedd cyflogaeth, rolau swyddi a chyfrifoldebau</p>	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd cyflogaeth yn y meysydd canlynol yn y diwydiant digwyddiadau yn ogystal â'r rolau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllunio digwyddiadau: cynllunydd/rheolwr digwyddiadau • marchnata a hyrwyddo: swyddog gweithredol marchnata a chyfathrebu, cynorthwydd hyrwyddo • gwerthiannau: cydlynnydd/cynorthwydd • cyllid: gweinyddwr/rheolwr cyfrifon • arlwy: brigâd y gegin, staff gweini, cadw tŷ a chynnal a chadw • gwasanaethau cwsmeriaid: ymgynghorydd/cynorthwydd • diogelwch: swyddog/rheolwr.
<p>1.2.2 Sgiliau a rhinweddau</p>	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall y gwahanol sgiliau a rhinweddau y mae eu hangen yn y diwydiant digwyddiadau.</p> <p>Sgiliau cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> • di-eiriau: <ul style="list-style-type: none"> • iaith y corff, gwenu, cyswllt llygaid, mynegiant wyneb, ystumiau, osgo • hyder <ul style="list-style-type: none"> • sgiliau gwranddo • ymddangosiad • geiriol: <ul style="list-style-type: none"> • lleferydd (tôn, cyflymder, lefel sain) • eglurder • cadarnhaol, perswadiol a chymhellol • cymwynasgar/cyfeillgar • cyfathrebu ysgrifenedig. <p>Sgiliau datrys problemau</p> <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi • gwranddo • ymchwilio • cyfathrebu • meddwl yn greadigol.

	<p>Sgiliau technegol</p> <ul style="list-style-type: none">• TGCh/clyweledol/cyfathrebu• mathemategol/rheoli cyllidebau• mecanyddol• meddwl yn feirniadol. <p>Rhinweddau</p> <ul style="list-style-type: none">• sylw i'r manylion• addasrwydd• penderfynoldeb• hyblygrwydd• gonestrwydd• dyfalbarhau• dibynadwyedd• y gallu i weithio fel rhan o dîm• ethig gwaith da• rheoli amser/gweithio i derfynau amser• amldasgio
--	--

1.3 Cwmpas ac effaith y diwydiant digwyddiadau

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o gwmpas ac effaith y diwydiant digwyddiadau, yn benodol:

- 1.3.1 Effeithiau economaidd
- 1.3.2 Effeithiau cymdeithasol a diwylliannol
- 1.3.3 Effeithiau amgylcheddol

Cynnwys	Ymhelaethiad
<p>1.3.1 Effeithiau economaidd</p>	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae'r diwydiant digwyddiadau yn effeithio ar yr economi yn ehangach drwy amrediad o ffactorau, gan gynnwys:</p> <p>Gwariant gan ymwelwyr o'r tu allan i'r rhanbarth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • refeniw o wario ar deithio, llety, nwyddau a gwasanaethau yn y ddinas neu'r rhanbarth sy'n croesawu • nifer yr ymwelwyr • proffil o gyrchfan. <p>Gwariant cyfalaf ar gyfleusterau sy'n ofynnol i gynnal y digwyddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • effaith catalyddion • gadael gwaddol • creu swyddi • creu isadeiledd newydd ar gyfer twristiaeth gan gynnwys cyfleusterau lletygarwch, adwerthu a gwasanaethau. <p>Trefnu'r digwyddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflogi busnesau lleol ac arbenigol. <p>Mewnbwn y cyfryngau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyrhaeddiad ac amlygiad – lleol, cenedlaethol, rhyngwladol • proffil tref neu ddinas • enw da.
<p>1.3.2 Effeithiau cymdeithasol a diwylliannol</p>	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall yr amrediad o effeithiau cadarnhaol a negyddol y gall digwyddiadau eu cael:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu cymunedol • dylanwad diwylliannol • addysg • cyflogaeth • cyfleusterau lleol • cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad.

1.3.3

Effeithiau amgylcheddol

Dylai dysgwyr wybod a deall yr effeithiau amgylcheddol y gall digwyddiadau eu cael:

- egni – nwyon tŷ gwydr o ddefnyddio tanwydd a phŵer
- gwastraff – tirlenwi, compostio ac ailgylchu
- teithio a thrafnidiaeth – llygredd o allyriadau o gerbydau a sŵn
- defnyddio dŵr – gwastraff a charthffosiaeth
- bwyd a diodydd – wedi'u prynu'n lleol.

DRAFT

Uned 2

Teitl yr uned	Cynllunio a chynnal digwyddiad
ODA	72
Cyd-destun galwedigaethol	<p>Fel diwydiant nid yw cynllunio digwyddiadau byth yn aros yn ei unfan. Mae'n datblygu o hyd ac mae rhywbeth newydd i'w ddysgu o hyd neu rhyw her i'w goresgyn.</p> <p>I ddilyn gyrfa mewn digwyddiadau, mae angen gwneud mwy na threfnu rhyw un neu ddau o bartïon i'r teulu. Dyma pam mae'r sector digwyddiadau yn y DU yn unig yn werth mwy na £42.3 biliwn ac yn hwyluso digwyddiadau wedi'u mynychu gan fwy nag 85 miliwn o bobl bob blwyddyn.²</p>
Trosolwg o'r uned	<p>Mae'r uned hon yn cyflwyno'r ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant digwyddiadau. Bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ymchwilio, cynllunio, cydlynu, cynnal a gwerthuso eu digwyddiad eu hunain.</p> <p>Uned synoptig yw hon ac mae'n defnyddio'r wybodaeth a enillwyd yn Uned 1. Bydd angen i ddysgwyr gymhwyso'r wybodaeth hon yn y testunau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mathau o leoliadau • cleientiaid a chwsmeriaid – mathau, anghenion a disgwyliadau • egwyddorion cynllunio digwyddiadau • sgiliau a rhinweddau (cyflogaeth yn y diwydiant digwyddiadau) • effeithiau cymdeithasol a diwylliannol • gofynion rheoleiddiol <p>er mwyn gallu cynllunio a chynnal y digwyddiad sy'n ffurfio asesiad yr uned hon (Uned 2).</p>
Testunau	<p>2.1 Ysgrifennu cynnig digwyddiad llwyddiannus</p> <p>2.2 Cynllunio a threfnu digwyddiad</p> <p>2.3 Cynnal digwyddiad</p> <p>2.4 Gwerthuso'r digwyddiad</p>

² <https://www.eventbrite.co.uk/blog>

Asesu

Asesiad mewnol gan ddefnyddio asesiad dan reolaeth sydd i'r uned hon ac mae'n cyfrannu 60% at radd gyffredinol y cymhwyster.

Hyd: 14 awr

Nifer y marciau: 120

Fformat: Bydd briff yr aseiniad, i gynnwys senario a sawl tasg, yn aros yr un fath am oes y fanyleb . Bydd yn cael ei ddsbarthu i'r canolfannau mewn pecyn Asesiad yr Ymgeisydd drwy Wefan Ddiogel CBAC. Nid oes bwriad i newid y tasgau dros oes y fanyleb. Os bydd ymgeiswyr yn dewis ailsefyll yr uned hon yn ddiweddarach, yna mae'n rhaid iddynt drefnu digwyddiad gwahanol.

2.1 Ysgrifennu cynnig digwyddiad llwyddiannus

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ysgrifennu cynnig digwyddiad llwyddiannus, mewn perthynas â:

- 2.1.1 Cynlluniau cynnig digwyddiad
- 2.1.2 Gofynion adnoddau
- 2.1.3 Cynllunio ariannol
- 2.1.4 Paratoi cynllun wrth gefn
- 2.1.5 Hyrwyddo digwyddiad

Cynnwys

Ymhelaethiad

2.1.1

Cynlluniau cynnig digwyddiad

Dylai dysgwyr allu creu cynllun cynnig digwyddiad sy'n cynnwys amcanion SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac o fewn amserlen) a rhoi manylion am y canlynol:

- cynulleidfa darged i gynnwys ymchwil marchnata
- dyddiadau
- iechyd a diogelwch
- lleoliad.

2.1.2

Gofynion o ran adnoddau

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y bydd cynnig digwyddiad yn cynnwys manylion am yr adnoddau canlynol:

- adnoddau dynol: staff, trefnwyr, timau, cyflenwyr, cymorth cyntaf a diogelwch
- lleoliad: maint y lleoliad, trefniant eistedd, cynllun, byrddau ac arlwy
- offer perthnasol.

<p>2.1.3 Cynllunio ariannol</p>	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall rhagfynegiadau ariannol a chyllidebu a gallu costio digwyddiadau'n gywir, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • costau sefydlog • costau newidiol • adennill costau • maint yr elw. <p>Dylai dysgwyr wybod a deall bod referniw ar gyfer y digwyddiad yn dod o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffioedd mynediad • nawdd • grantiau • gwariant eilaidd (gwerthiannau lluniaeth ysgafn a raffl).
<p>2.1.4 Paratoi cynllun wrth gefn</p>	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffactorau canlynol i'w hystyried wrth baratoi cynllun wrth gefn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mynychwyr – sut gall nifer y mynychwyr olygu bod angen newid lleoliad neu gynyddu capasiti a staffio lleoliad, canslo adloniant/siaradwyr gwadd/arweinwyr y digwyddiad • offer, cyflwyniadau, cerddoriaeth, microffonau yn methu, darpariaeth offer a chefnogaeth dechnegol arall • diogelwch y gwesteion a'r lleoliad, gwesteion aflonyddgar, tân, llifogydd, diogelwch, salwch staff, gwacáu, argyfwng meddygol • materion trafnidiaeth, llwybrau, parcio, mynediad i leoliadau • ystyriaethau lleoliad o ran lleoliadau dan do ac awyr agored, tywydd, gwresogi/aerdymheru – lleoliadau eraill
<p>2.1.5 Hyrwyddo digwyddiad</p>	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r gweithgareddau hyrwyddo canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfryngau digidol fel gwefan, blogiau a phodlediadau i hyrwyddo digwyddiadau • cyfryngau print fel taflenni cyhoeddusrwydd, taflenni a phosteri i hyrwyddo digwyddiadau • ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram a Snapchat i hyrwyddo digwyddiadau.

2.2 Cynllunio a threfnu digwyddiadau

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o gynllunio digwyddiadau, yn benodol:

- 2.2.1 Rolau a chyfrifoldebau unigolion mewn timau
- 2.2.2 Trefnu digwyddiadau
- 2.2.3 Cynllunio gweithgareddau digwyddiadau

Cynnwys	Ymhelaethiad
<p>2.2.1 Rolau a chyfrifoldebau unigolion mewn timau</p>	<p>Dylai dysgwyr wybod am, a deall, y rolau, cyfrifoldebau, sgiliau a rhinweddau y mae disgwyl i dîm digwyddiadau eu cael:</p> <p>Rolau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cydlynnydd digwyddiadau • cydlynnydd lleoliad • cydlynnydd offer • cydlynnydd hyrwyddo • cydlynnydd lletygarwch • trysorydd. <p>Cyfrifoldebau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • perfformiad: cwblhau'r holl ddyletswyddau mewn ffordd gymwys • atebolrwydd: cymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd • cydymffurfio: cydymffurfio â pholisiau a chanllawiau • dyletswydd gofal: rhwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod pobl eraill yn ddiogel. <p>Sgiliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfathrebwr da (geiriol a dieiriau) • cyfeillgar • TGCh/clyweledol/cyfathrebu • mathemategol/rheoli cyllidebau • meddwl yn feirniadol • dadansoddi • gwranddo • ymchwilio • meddwl yn greadigol. <p>Rhinweddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sylw i'r manylion • addasrwydd • penderfynoldeb

	<ul style="list-style-type: none"> • hyblygrwydd • gonestrwydd • dyfalbarhau • dibynadwyedd • y gallu i weithio fel rhan o dîm • ethig gwaith da • rheoli amser/gweithio i derfynau amser • amlwasgio
<p>2.2.2 Trefnu digwyddiadau</p>	<p>Dylai dysgwyr allu cyfrannu at gofnodion a logiau gweithredu cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut i gyflawni amcanion digwyddiad • dilyn polisiau a gweithdrefnau • bodloni anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.
<p>2.2.3 Cynllunio gweithgareddau digwyddiadau</p>	<p>Dylai dysgwyr allu cynhyrchu cynllun gweithredu i gwmpasu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • monitro – ystyried pwy sy'n gyfrifol am bob tasg, ynghyd â sut, beth a pham • dilyniant – ystyried pa dasgau y mae'n rhaid eu cwblhau ac ym mha drefn y dylid gwneud hynny • amseru – i gynnwys camau penodol, hyd y dasg a therfynau amser.

2.3 Paratoi a chynnal digwyddiad

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gynnal digwyddiad, yn benodol:

2.3.1 Ffactorau sy'n effeithio ar wasanaethau cwsmeriaid mewn digwyddiadau

2.3.2 Iechyd a diogelwch, a briffio staff

2.3.3 Egwyddorion a nodweddion gwasanaeth i gwsmeriaid

Cynnwys	Ymhelaethiad
<p>2.3.1</p> <p>Ffactorau sy'n effeithio ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i gwsmeriaid mewn digwyddiadau</p>	<p>Dylai dysgwyr allu cynllunio ar gyfer y ffactorau canlynol. Mae angen eu hystyried hefyd gan y gallent effeithio ar wasanaeth i gwsmeriaid, cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mathau o gwsmeriaid, gan gynnwys unigolion, grwpiau a theuluoedd, oedrannau gwahanol ac anghenion penodol • defnydd o dechnoleg, gan gynnwys offer technegol clyweledol • defnydd o ddogfennaeth ar gyfer gweinyddu a gwybodaeth ar gyfer y digwyddiad ac adborth ar ôl y digwyddiad.
<p>2.3.2</p> <p>Iechyd a diogelwch, a briffio staff</p>	<p>Dylai dysgwyr allu cynllunio ar gyfer materion iechyd a diogelwch, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymorth cyntaf, asesiad risg, gweithdrefnau argyfwng, staffio ac amserlennu. <p>Dylai dysgwyr allu briffio staff ar gyfer digwyddiadau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sefydlu a briffio penodol i rôl, paratoi staff ar gyfer Cwestiynau Cyffredin a sesiynau briffio llawn am y digwyddiad.
<p>2.3.3</p> <p>Egwyddorion a nodweddion gwasanaeth i gwsmeriaid</p>	<p>Dylai dysgwyr wybod am, a deall, egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid da, gan gynnwys gwranddo ac ymateb, amynedd, empathi, cwrtseisi, gwybodaeth am gynhyrchion a gwasanaethau, a bod yn chwaraewr tîm.</p> <p>Dylai dysgwyr allu cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid a dangos y nodweddion canlynol o wasanaeth cwsmeriaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymddwyn mewn ffordd groesawgar a chwrtais bob tro mae'n dod i gysylltiad â'r cwsmer • y gallu i ffurfio perthnasoedd da â chwsmeriaid gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu ardderchog, yn eiriol ac yn ddi-eiriau • y gallu i adnabod anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid a bodloni/mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau hyn • y gallu i annog cwsmeriaid i roi adborth, ymateb i adborth a darparu gwasanaethau a chyfleusterau i gwsmeriaid.

2.4 Gwerthuso'r digwyddiad

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthuso digwyddiad, yn benodol:

2.4.1 Adolygu llwyddiant digwyddiad

2.4.2 Adolygu adborth cwsmeriaid

2.4.3 Adolygu eu perfformiad eu hunain

2.4.4 Adolygu perfformiad pobl eraill

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.4.1 Adolygu llwyddiant digwyddiad	Dylai dysgwyr allu adolygu llwyddiant digwyddiad er mwyn gwerthuso'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a wnaeth y digwyddiad gyflawni ei amcanion SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac o fewn amserlen) a wnaeth y digwyddiad fodloni ei ofynion cyllidebol a wnaeth y digwyddiad fodloni anghenion a disgwyliadau'r cwsmer a ddilynwyd y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol yn gywir gan aelodau'r tîm.
2.4.2 Adolygu adborth cwsmeriaid	Dylai dysgwyr allu adolygu adborth cwsmeriaid er mwyn gwneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ystyried yr hyn y mae angen gwella arno ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol coladu, arddangos a dadansoddi canlyniadau dod i gasgliadau.
2.4.3 Adolygu eu perfformiad eu hunain	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> adnabod ymhle y gellid gwella yn nhermau pa mor effeithiol ydynt yn eu rôl yn y tîm, sut gwnaethant ymateb i gyfarwyddiadau, ymdrin â chwsmeriaid, helpu i fodloni amcanion y digwyddiad adnabod eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain mewn perthynas â chynllunio, cydlynu a sicrhau bod y digwyddiad yn digwydd.
2.4.4 Adolygu perfformiad pobl eraill	Dylai dysgwyr allu trafod cryfderau a gwendidau unigolion o fewn eu timau: <ul style="list-style-type: none"> adnabod ymhle y mae angen i'r tîm wella yn nhermau rolau pawb yn y tîm, sut ymatebodd unigolion i gyfarwyddiadau, ymdrin â chwsmeriaid, helpu i fodloni amcanion y digwyddiad adnabod cryfderau a gwendidau'r tîm o ran cynllunio, cydlynu a sicrhau bod y digwyddiad yn digwydd.

4. Asesu

4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)

Arholiad allanol yw Uned 1 sydd ar gael ym mis Ionawr a Mai/Mehefin bob blwyddyn (asesiad cyntaf ym mis Ionawr 2024).

Bydd pob arholiad allanol yn:

- cael ei osod a'i farcio gan CBAC
- cynnwys papur 1 awr, 20 munud o hyd
- asesu cynnwys o bob testun yn yr uned ym mhob cyfres
- cynnwys 80 marc
- cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- defnyddio'r berfau gorchymyn ar y rhestr yn y Canllaw Asesu (Pennod 4) yn unig
- cael ei raddio Lefel 1 Llwyddiant, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Rhagoriaeth*.

Asesir yr holl gynnwys ym mhob maes testun dros rychwant oes y fanyleb. Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir wedyn fel y sail ar gyfer marcio'r papurau arholiad.

I asesiadau allanol, rhaid i ganolfannau ddilyn dogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*, y mae copi ohoni i'w gweld yn Saesneg ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

4.2 Asesiad mewnol (Uned 2)

Asesir Uned 2 drwy asesiad dan reolaeth, a'i chyflwyno wedyn i'w chymedroli'n allanol. Gellir cyflwyno Uned 2 ym mis Ionawr a Mai bob blwyddyn (cyflwyniad cyntaf ym mis Ionawr 2023). Rhaid i ganolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth sydd i'w gweld yn y Canllaw Gweinyddu ac ym mhob Canllaw Uned. I gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn, dylai canolfannau fod â pholisi asesiad dan reolaeth ar waith (y gall fod yn rhan o bolisi Asesiad Di-arholiad y ganolfan); bydd y polisi hwn yn cael ei wirio yn rhan o broses gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

4.3 Asesiad synoptig

Uned synoptig yw Uned 2 sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r profiad a enillwyd ganddynt drwy Uned 1 (gweler tudalen 18 am fanylion).

4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr

Mae Pecynnau Asesu ar gyfer ymgeiswyr ac aseswyr i'w cael ar y wefan ddiogel i'w lawrlwytho gan ganolfannau. Ni ddylai'r Pecynnau Ymgeiswyr fod ar gael i'r ymgeiswyr tan ddechrau'r asesiad sef yn ystod mis Medi pob blwyddyn academiaidd. Mae Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i'w cael ar wefan cbac.co.uk.

4.5 Rheoli'r asesiadau

Dylai canolfannau reoli a chynnal asesiadau mewnol yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y Canllaw Gweinyddu ym Mhennod 3 ac yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Pedwar maes sy'n cael eu rheoli: goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, adnoddau a chydweithio. Mae'r canllaw Uned cyfatebol yn cynnwys manylion penodol i bob uned.

DRAFT

5. Oriau dysgu dan arweiniad a chyfanswm amser cymhwyso

5.1 Oriau dysgu dan arweiniad

Mae oriau dysgu dan arweiniad (ODA) yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu oruchwylwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwylwr neu arolygwr.

Cyfanswm yr Oriau Dysgu dan Arweiniad sydd wedi'u neilltuo i'r cymhwyster hwn yw 120 o oriau.

Caiff oriau dysgu dan arweiniad eu dyrannu i bob uned i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno yn y ganolfan. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn ac argymhelliad yn unig felly yw nifer yr oriau dysgu dan arweiniad i bob uned.

5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr oriau dysgu dan arweiniad ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

180 o oriau yw'r cyfanswm amser cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- 120 o oriau o ddysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 60 o oriau o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

6. Cofrestriadau

6.1 Cymeradwyo Canolfannau

Er mwyn cynnig ein cymwysterau, mae'n rhaid i ganolfan gael ei chymeradwyo fel canolfan gan CBAC. Mae'r broses gymeradwyo yn cynnwys llenwi'r ffurflen(ni) cais perthnasol ac asesiad o allu'r ganolfan i fodloni gofynion CBAC a rhai perthnasol y CGC.

Os yw eich canolfan eisoes yn cynnig Cymwysterau Cyffredinol ac wedi derbyn rhif canolfan (NCN), darllenwch Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC a chysylltwch â ni i ofyn am ffurflen gais.

Os ydych chi'n sefydliad newydd, darllenwch y dogfennau canlynol cyn cysylltu â ni i drafod eich canolfan arfaethedig:

- Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy CGC
- Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau CGC
- Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC.

Os hoffai eich canolfan gyflwyno cofrestriadau a chithau heb gofrestru fel canolfan eto, yna cysylltwch â'r adran Cefnogi Canolfannau yn CBAC canolfannau@CBAC.co.uk i gael ffurflen gais. Rhaid dychwelyd y ffurflen hon wedi'i llenwi i CBAC yn ddim llai na phum mis cyn y terfyn amser cofrestru perthnasol.

Rhaid i ganolfannau cymeradwy CBAC gadw at yr **Amodau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC a rheoliadau priodol y CGC**. Rhaid i bob canolfan gymeradwy CBAC sydd â Rhif Canolfan Cenedlaethol (NCN) gwblhau'r **datganiad blynyddol a anfonir gan NCN**. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at al ymrestriad CBAC.

6.2 Dulliau Cofrestru

Bydd cymhwyster CBAC Lefel 1/2 mewn Digwyddiadau (Dyfarniad Technegol) ar gael i'w ardystio o fis Ionawr 2024.

Cofrestru ar gyfer unedau

Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol sydd i'w gweld ar bob uned sy'n rhan o'r fanyleb.

Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

Codau cofrestru

		Cod Cofrestru
Uned 1	Aseiad allanol	
Uned 2	Aseu mewnol	
Cod Cyfnewid		

DRAFT

7. Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl

Defnyddir graddfa o 8 pwynt i ddyfarnu Dyfarniadau Galwedigaethol: Lefel 2 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Llwyddiant. Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i raddau fel a ganlyn:

Uned	Uchafswm	Lefel 2				Lefel 1			
		D*	D	M	P	D*	D	M	P
Uned 1	120	108	96	84	72	60	48	36	24
Uned 2	180	162	144	126	108	90	72	54	36

Cymhwyster	300	270	240	210	180	150	120	90	60
-------------------	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	----	----

8. Trefniadau ailsefyll

8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned(au) a asesir yn **fewnol** cyn ardystio ond ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Defnyddir y sgôr marc unffurf gorau o'r cynigion i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** cyn ardystio; ond, mae gofyniad terfynol o 40% yn y cymhwyster hwn y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Felly, dim ond y sgôr marciau unffurf o'r ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hon yn is na'r ymgais blaenorol.

8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio

Gall ymgeiswyr sy'n anhapus â'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer y cymhwyster ddewis ailsefyll un neu fwy o unedau ar ôl ardystio.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol**, dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol. Nid oes angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned(au) a asesir yn **fewnol** gan y gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol am hyd oes y fanyleb.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned(au) a asesir yn **fewnol**, defnyddir yr uchaf o'r sgorau marciau unffurf naill ai o'r ymgais cychwynol neu'r ymgais ailsefyll i gyfrifo'r radd gyffredinol. Hefyd, bydd angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** i fodloni gofyniad rheol derfynol y cymhwyster. Dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol.

8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar ôl y canlyniadau'n ymwneud ag adolygiadau o'r marcio a'r cymedroli a mynediad i sgriptiau arholiadau. Mae gwybodaeth am wasanaethau ar ôl y canlyniadau i'w gweld ar wefan Eduqas.

9. Camymddwyn

Mae gwybodaeth ynghylch Camymddwyn ar gael yn ein dogfen [Camymddwyn, Canllaw i Ganolfannau](#).

Rhaid rhoi gwybod i CBAC am bob achos o gamymddwyn honedig neu wirioneddol. Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y cânt eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC [Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau](#).

9.1 Atal camymddwyn

Ni ddylai ymgeiswyr:

- Gyflwyno gwaith heblaw eu gwaith hwy eu hunain
- Darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd
- Caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol
- Cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith
- Defnyddio llyfrau, y rhyngwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau
- Cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth
- Cynnwys deunydd amhriodol, anwedus neu sarhaus.

Nid yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd rhag benthyg llyfrau neu adnoddau eraill i'w gilydd ond ni ddylent lèn-ladrata gwaith ymchwil ymgeiswyr eraill.

Ni ddylai ymgeiswyr roi eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylent fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC Gwybodaeth i ymgeiswyr – Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/asesiadau ar y Rhyngwyd – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-malpractice>.

Rhaid i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwyllo'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu asesiad dan reolaeth yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuan o gamymddwyn ei hun yn gamymddwyn.

Rhaid i staff addysgu:

- fod yn wiliadwrus o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol
- rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i CBAC.